Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Penybontfawr

**Canolfan Gymunedol**
**Penybontfawr**
**Croesoswallt**
**Powys**
**SY10 0NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Penybontfawr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Penybontfawr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Susha Reynolds |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Lyndsey Richards ac Awel Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.00yb - 3.30yp Dydd Llun, Mercher, Iau a Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/10/2022 |
| Mae tua hanner y plant yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith ac mae gan ychydig iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn gosod a chadw'r holl offer ac adnoddau yn ddyddiol. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r Unigolyn Cofrestredig roi sylw iddynt.

Mae'r holl wybodaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth wedi'i chynnwys mewn Crynodeb Gweithredu Gwelliant fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn gyson trwy gydol bob sesiwn

A2 Mynd i'r afael â'r materion o ddiffyg cydymffurfiaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus yn y lleoliad. Maen nhw’n gadael eu rhieni a gwarchodwyr ac yn mynd i chwarae’n hyderus ar ddechrau’r sesiwn. Maen nhw’n dangos brwdfrydedd a mwynhad wrth ddewis ble maen nhw am chwarae ac wrth eu bodd â’r adnoddau sydd ar gael. Mae bron bob plentyn yn mynegi’u dymuniadau yn effeithiol, er enghraifft pan maen nhw'n cyfrannu at y cynllunio trwy ddweud eu bod eisiau dysgu am ffrwythau ac anifeiliaid gwahanol. Mae’r plant hŷn yn mynegi eu hunain yn briodol ac yn mwynhau lleisio’u barn a chynnig syniadau. Er enghraifft, mae plant mwy abl yn mwynhau trafod gydag ymarferwyr y lle gorau i storio'r gwair yn fferm y byd bach ac mae eraill yn sôn wrth ymwelwyr am y ‘crempog’ maent yn ei gwneud gyda thoes.

Mae’r rhan fwyaf yn rhyngweithio â’i gilydd ac ymarferwyr yn briodol. Maen nhw’n dechrau deall eu teimladau ac yn sensitif i emosiynau plant eraill, er enghraifft trwy ddysgu am garedigrwydd ac empathi wrth weld ffrind yn cwympo. Yn gyffredinol, mae’r plant hŷn yn cydweithredu’n dda yn enwedig wrth chwarae rôl a rhannu beic yn yr ardal allanol. Mae llawer yn dangos agwedd ofalgar tuag at ei gilydd ac yn gofalu am gyfarpar ac adnoddau. Mae’r rhan fwyaf yn helpu i dacluso’r teganau ar ôl eu chwarae rhydd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maen nhw’n chwilfrydig wrth drafod ffrwythau gwahanol, ac mae'r rhan fwyaf yn mwynhau eu blasu. Mae bron bob un wrth eu bodd yn chwarae gyda’r adnoddau yn yr ardal allanol. Mae’r plant hŷn yn canolbwyntio’n dda wrth geisio rhoi cyfarwyddiadau i’r tegan rhaglenadwy, gan ddangos balchder a mwynhad wrth lwyddo. Maen nhw’n symud yn rhwydd o un ardal i'r llall pan fyddant yn dymuno chwarae â rhywbeth gwahanol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod o fedrau sy’n cyfateb i’w cam datblygu yn effeithiol. Er enghraifft, maen nhw’n  datblygu’u medrau creadigol wrth ddefnyddio’r offer paentio tu mewn ac yn yr ardal allanol. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Un o nodau’r lleoliad yw medrau annibyniaeth y plant. Maen nhw’n dyfalbarhau wrth roi eu heiddo personol ar begiau ac wrth arllwys llaeth amser bwyd bore.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Maen nhw’n trin adnoddau’n hyderus ac yn defnyddio ystod o fedrau’n gynyddol lwyddiannus trwy gydol y sesiwn, yn eu chwarae naturiol ac o dan arweiniad ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau cyfathrebu’n gynyddol dda. Maen nhw’n gallu mynegi eu hanghenion yn briodol drwy ddefnyddio geiriau neu ystumiau. Mae’r rhan fwyaf yn gwrando’n astud ac yn dangos dealltwriaeth briodol, er enghraifft wrth wrando ar stori ac ymateb iddi. Mae llawer yn dechrau defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn naturiol. Maen nhw’n plethu’r Gymraeg i mewn i’w sgwrs, er enghraifft i ofyn ‘ga i laeth’, neu wrth ddweud ‘Dwi’n gallu torri banana by myself’.

Fodd bynnag, nid yw rhai plant mwy abl yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg cystal ag y gallent. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno i ganu caneuon cyfarwydd yn frwdfrydig. Maen nhw'n arbrofi'n hyderus â gwneud marciau gydag amrywiaeth da o offer gwahanol. Wrth ddod o hyd i gadair amser byrbryd, mae llawer o blant yn dangos eu bod yn adnabod eu henwau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau modur mân a mawr yn fedrus.  Maent yn neidio ac yn brasgamu'n hyderus wrth ganu am y dinosor, ac yn defnyddio cyllell yn llwyddiannus i dorri banana ac afocado.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda.  Mae bron bob un yn cyfri i chwech yn hyderus wrth nodi faint o blant sy'n bresennol, a'r rhai mwy abl yn adnabod y rhif ac yn ei ffurfio'n gywir ar lechen. Mae llawer yn dechrau adnabod patrwm, er enghraifft pan maent yn dilyn rhythm yn gywir gydag offer taro wrth ymuno â chân.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau'n hyderus, ac yn dangos parodrwydd i ddyfalbarhau wrth wynebu her. Maen nhw'n meddwl yn ddwys wrth ddyfalu ble mae'r ffrwythau sydd wedi'u cuddio yn yr ardal allanol ac mae ychydig yn dal ati i chwilio nes byddant yn dod o hyd i bob un.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau creadigol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maen nhw'n mwynhau arbrofi â phaent, a defnyddio'u dychymyg i greu gwahanol wrthrychau gyda'r toes. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgyfarwyddo'n effeithiol gydag offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu defnyddio'n briodol. Mae'r plant mwy abl yn dyfalbarhau'n llwyddiannus i symud tegan rhaglenadwy ac yn deall sut i greu marciau ac yna eu dileu ar y cyfrifiadur llechen.

**Gofal a datblygiad:**

Mae gan bron bob ymarferydd ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu trylwyr a chadarn y lleoliad. Maent yn gwbwl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant a staff ar y safle. Mae bob un ohonynt wedi cael hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys amddiffyn plant, ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt bryderon am blentyn. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg effeithlon ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn darparu prydau bwyd iach wedi'u coginio gan yr ysgol leol i fwyafrif y plant, tra bod yr ymarferwyr yn annog teuluoedd i ddarparu bocsys bwyd iach. Maen nhw'n sicrhau bod plant yn deall pwysigrwydd golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r polisi ymddygiad ac mae strategaethau rheoli ymddygiad cyson a thawel ar waith yn y lleoliad.  Mae ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner, gan fodelu rhyngweithio parchus a gofalgar. Maen nhw'n defnyddio iaith gadarnhaol i ganmol plant am eu hymdrechion yn gyson ac yn eu hannog i fod yn gwrtais.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn ymateb yn dda i anghenion unigol y plant gan ystyried eu cam datblygu. Maen nhw'n cefnogi datblygiad gwybyddol y plant yn

effeithiol trwy eu holi'n briodol wrth iddynt chwarae. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn gwrando ar, a pharchu, barn y plant wrth ystyried eu diddordebau'n ofalus wrth gynllunio.

Mae ymarferwyr yn rhoi cymorth pwrpasol i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i holl weithgareddau'r lleoliad. Maen nhw'n gweithredu ar gyngor gan swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar ac asiantaethau eraill i sicrhau cefnogaeth fuddiol i'r plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi'u plant. Mae hyn yn cynnwys cofnodi hoffterau a diddordebau'r plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn dechrau ystyried gofynion y Cwricwlwm i Gymru wrth gynllunio, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Maen nhw'n defnyddio diddordebau'r plant fel man cychwyn, ac yn sicrhau ffocws priodol ar ddatblygu eu medrau trawsgwricwlaidd mewn modd holistaidd. Er enghraifft, maen nhw'n datblygu medrau iaith, modur mân a rhifedd ac yn annog chwilfrydedd y plant wrth iddynt gynnig ystod o brofiadau wedi'u seilio ar stori. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw teilwng i ddatblygu medrau Cymraeg y plant trwy nodi geirfa berthnasol, câneuon, storïau neu frawddegau i'w dysgu wrth gynllunio. Maen nhw'n ystyried profiadau, yr amgylchedd a rôl yr oedolyn yn rheolaidd wrth gynllunio gan gynnig cyfleoedd chwarae pwrpasol mae'r plant yn eu mwynhau tu mewn ac yn yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn trin ei gilydd a'r plant gyda pharch a chwrteisi ac mae hyn yn gosod sylfaen gadarn i'w datblygiad cymdeithasol. Drwy osod disgwyliad y bydd pob plentyn yn helpu i dacluso ar ddiwedd y sesiwn, mae'r ymarferwyr yn dechrau datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb. Maen nhw'n ymyrryd yn sensitif ac yn fedrus tra'n chwarae gyda'r plant ar y cyfan, gan ymestyn ystod o fedrau yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymdeimlad o ryfeddod at y byd yn effeithiol. Er enghraifft, maen nhw'n annog y plant i sylwi ar newidiadau yn y tywydd, tyfu llysiau ac arbrofi â ffrwythau o bob rhan o'r byd.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cydbwysedd effeithiol rhwng chwarae digymell y plant a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. O ganlyniad, mae'r plant yn cael digon o amser i fwynhau dilyn diddordebau eu hunain, a hefyd elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ehangu eu medrau, er enghraifft trwy wrando ar stori neu ymuno â sesiwn canu.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn naturiol, ar y cyfan. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r tafodiaith leol i ganmol y plant yn gyson, gan ddweud "da, lodes". Fodd bynnag, ar adegau, maen nhw'n rhy barod i droi i'r Saesneg. O ganlyniad, nid yw bob plentyn yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg cystal ag y gallent, yn enwedig y plant mwy abl.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant. Maen nhw'n eu harsylwi ar fynediad i'r lleoliad gan nodi'u cryfderau'n briodol. Mae ymarferwyr yn

cydweithio’n effeithiol â rhieni a gofalwyr i gasglu gwybodaeth am y plant a rhannu’u cyflawniadau. Maen nhw’n ystyried camau nesaf y plant yn briodol wrth werthuso eu cynlluniau. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn dod i adnabod y plant a’u hanghenion yn dda. Maen nhw’n defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau mae’r plant yn eu mwynhau ac sy’n gyfrannu’n effeithiol at ddilyniant a pharhad yn eu dysgu a’u chwarae.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd cartrefol, glân a diogel i’r plant. Maen nhw’n defnyddio neuadd yr ysgol gynradd leol i gynnig y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd o gyfleusterau fel y gegin, toiledau ac ardal allanol bwrpasol. Mae gan y lleoliad brosesau cryf ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel. Mae’r rhain yn cynnwys asesiadau risg priodol. Er bod yr ymarferwyr yn gosod a chadw’r holl offer ac adnoddau yn ddyddiol, maent yn llwyddo i greu amgylchedd chwarae a dysgu deniadol ac ysgogol.

Mae’r amgylchedd yn yr ardal fewnol yn cynnig digon o le i’r holl blant chwarae a symud yn rhydd, ac yn hybu’u hannibyniaeth yn effeithiol. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy’n sicrhau eu bod yn gallu eu cyrraedd heb gefnogaeth oedolion. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig ystod lawn o brofiadau difyr i’r plant, gan wneud y gorau o’r gofod sydd ar gael. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio i ddefnyddio’r ardal allanol mor aml â phosibl, sy’n hyrwyddo medrau a lles y plant yn llwyddiannus.

Ystod ac ansawdd yr adnoddau ac offer yw un o gryfderau’r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at yr holl adnoddau. Mae’r adnoddau’n briodol i oedran a datblygiad y plant ac yn eu herio a’u diddanu’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i’r plant ddefnyddio offer go iawn, er enghraifft i blicio a thorri ffrwythau, ac i baratoi tost. Maen nhw’n darparu dillad tywydd gwlyb ac oferôls i'w gwisgo sy’n caniatáu i’r plant wneud y mwyaf o’r ardal allanol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r ddau arweinydd yn rhannu’r rôl arweinyddol yn effeithiol. Maen nhw’n arwain yn dawel a phwrpasol gan sefydlu ethos cadarnhaol, cynnes a chroesawgar yn y lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth glir i ddarparu profiadau o'r ansawdd gorau i'r plant mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles. Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n dda â’i gilydd, gan wneud yn fawr o’u cryfderau. Maent yn sicrhau bod bob ymarferydd yn deall ei rôl ac yn hybu diwylliant o ddiogelwch yn drefnus ac effeithiol. O ganlyniad, mae'r sesiynau'n rhedeg yn llyfn, a’r plant yn ymgartrefu’n hapus.

Mae’r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth am gynnydd y lleoliad yn rheolaidd gyda’r pwyllgor rheoli a’r unigolyn cyfrifol. Mae'r cyswllt agos hwn yn sicrhau bod yr holl bolisïau a’r asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n effeithiol. Mae’r lleoliad yn bodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cydymffurfio â’r rhan fwyaf o’r rheoliadau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau effeithiol ar waith i oruchwylio ymarferwyr.

Mae’r arweinwyr yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a phartneriaid eraill am y lleoliad yn effeithiol wrth ystyried y cryfderau a’r meysydd i’w gwella. Maen nhw’n blaenoriaethu’r materion maent yn dymuno’u gwella yn synhwyrol ac yn gweithredu’n bwrpasol ar weithredoedd yn y cynllun presennol.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn briodol. Maen nhw’n dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau’n glir. Mae arweinwyr yn gwneud y gorau o arbenigeddau a chryfderau ymarferwyr, er enghraifft wrth gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gwneud defnydd da o gyllid, gan gynnwys Grant Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar. Mae’r arweinwyr yn achub ar bob cyfle i fynychu hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant datblygu iaith a chwarae tu allan. O ganlyniad, mae’r plant yn elwa o brofiadau a chyfleoedd dysgu mae’n nhw’n eu mwynhau mewn amgylchedd trefnus ac ysgogol.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles y plant. Mae ganddynt berthynas gryf â’r ysgol sy’n sicrhau bod y plant yn dod i deimlo’n rhan o’r ysgol ac yn edrych ymlaen yn hyderus at fynd i’r dosbarth derbyn. Mae arweinwyr yn gwneud yn fawr o gyngor gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, er enghraifft i gymryd camau priodol tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/12/2022

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Mae staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol ond nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth rheolaidd. Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol a goruchwyliaeth rheolaidd. | Newydd |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14 Rhagfyr 2022